

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

Cofnodion Cyfarfod 9 Rhagfyr 2014 a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa, Y Felinheli am 7 yn yr hwyr.		
YN BRESENNOL		
Ken Brown (KB)	Pat Jones	
Lena Ashley (LA)	Louise Hughes (LH)	
George Smith (GS)	Daniel Williams	
Nerys John	Sarah Riley	
Wynne Barton - Swyddog Ariannol		
1.0	SYLWADAU AGORIADOL AC ADRODDIAD Y CADEIRYDD	
1.1	<p>Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i gyfarfod mis Rhagfyr.</p> <p>Ymddiheuriadau: Gwyneth Williams, Iestyn Harris, Mair Bebb Jones Sian Gwenllïan</p>	
2.0	<p>Croesawodd y Cadeirydd Mark Roberts a'i cyfeilion Arfon a Rhys i'r cyfarfod. Cyflwynodd Mark wybodaeth am ei gynllun arfaethedig ar gyfer y cae sydd o dan y Ganolfan Iechyd y Felinheli. Mae'r ardal oddeutu 2 acer mewn maint ac mae eisiau ei ddatblygu er budd y pentref. Mae mewn cysylltiad gyda'r Cynghorydd Sirol ynglŷn â'r cynllun arfaethedig. Y cynllun arfaethedig yw adeiladu byngalos dwy a thair llofft fydd yn dorma byngalos. O fewn y datblygiad bydd allotments ar gyfer defnydd i'r pentrefwyr, bydd angen ystyried perchnogaeth rhain yn y dyfodol ynghyd a sut mae eu rheoli. Tai fyddant ar gyfer pobl leol gyda marchnata lleol. Bydd oddeutu 4 tŷ fforddiadwy.</p> <p>Cafwyd ychydig o gwestiynau gan yr aelod.</p>	
3.0	DATGAN DIDDORDEB	
3.1	Dim wedi ei derbyn	
4.0	COFNODION	
4.1	Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 11 Tachwedd 2014. Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod fel rhai cywir a'u harwyddo.	CLERC
5.0	MATERION YN CODI	
5.1	<p>Kronos -er bod y Cynghorydd Iestyn Harris yn absennol roedd wedi anfon yr isod: Annwyl Bawb,</p> <p>Mae'r cytundeb i'w weld yn iawn. Mae wedi ei ddrafftio ar sail bod gan y cynghorau'r opsiwn nail a'i i dderbyn paneli solar neu arian "community benefit" o dan y cytundeb rhaid i'r cynghorau ymateb i hysbysiad gan Kronos ei fod wedi cychwyn cynhyrchu ynni ar y safle ("Commissioning date") drwy ddatgan os ydynt am osod paneli neu dderbyn yr arian. Fel bu i mi drafod hefo Kathrine gan ei bod yn gwybod mai derbyn arian yw ein dewis efallai gellir</p>	

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

	<p>newid y cytundeb gan ddileu'r opsiwn arall. Fydd yr arian yn daladwy o fewn 12 wythnos o gychwyn cynhyrchu ynni ar y safle.</p> <p>Mae'r taliad yn amodol ar hyn ond nid oes rhaid i'r cynghorau wneud dim i dderbyn yr arian heblaw am ymateb i hysbysiad Kronos ynglŷn â pha opsiwn maen yn dewis.</p> <p>Yn gywir,</p> <p>Iestyn.</p>	
5.2	Trefniadau Ariannol Unllais - roedd y mater yma ger bron ers y cyfarfod diweddaf ond oherwydd bod yr aelodau angen eu hystyried cyn trafod gohiriwyd y mater. Oherwydd nid oedd y Cynghorydd Iestyn Harris yn bresennol felly penderfynwyd gohirio trafod y mater hyd nes mis Ionawr.	
5.3	Adolygu ffioedd y Fynwent - Penderfynwyd gohirio'r mater hwn hyd gyfarfod mis Ionawr.	
6.0	ADRODDIAD IS-BWYLLGOR RHEOLI'R NEUADD	
6.1	<p>Dywedodd y Cynghorydd Daniel Williams bod mater y "Certification" wedi ei sortio ond bod dadl gydag un rhan o'r llawr.</p> <p>Bydd y grŵp badminton yn gosod llinellau newydd y cyrtiau badminton dros wyliau'r Nadolig.</p> <p>Mae problemau cael adeiladwyr i roi pris ar gyfer gwaith cynnal ar grib y to. Penderfynwyd bod y Clerc yn mynd tu allan i ffin y pentref i gael pris am y gwaith.</p> <p>Mae adroddiad wedi ei dderbyn gan Snowdonia Fire Protection ynglyn a materion diogelwch tân y neuadd. Y Clerc a'r Cynghorydd Daniel Williams i drafod y mater.</p>	<p>CLERC</p> <p>CLERC, DW</p>
7.0	CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL	
7.1	Cadarnhawyd gwariant mis Tachwedd.	
7.2	Cafwyd trafodaeth ynglŷn ag arian oedd wedi ei glustnodi ar gyfer cynlluniau arfaethedig; gan na fyddai'r cynllun Lon Las yn symud ymlaen a bod y prosiect llwybrau wedi derbyn cymorth ariannol mae angen bellach i ail drafod yr arian. Penderfynwyd ail drafod yr arian yma yn y flwyddyn ariannol newydd.	SWYDDOG ARIANNOL
8.0	GOHEBIAETH	
8.1	Llythyr oddi wrth Edwina Hart AS, Llywodraeth Cymru- eglurhad ynglŷn â pherchnogaeth tir	

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

	gyferbyn a Ffordd Glan y Môr. Penderfynwyd anfon at Gyngor Gwynedd gyda chais iddynt gofrestru'r tir ar un with.	CLERC
9.0	ADRODDIAD Y CLOC	
9.1	Cyflwynwyd dogfennau a phrisiau tendr gwaith trydanol i'r aelodau. Oherwydd bod ansicrwydd ynglŷn â beth oedd wedi ei gynnwys mewn rhai o'r prisiau penderfynwyd holi'r pensaer i gael eglurhad. Y Clerc i gysylltu â Peter Wray.	CLERC
10.0	CEISIADAU CYNLLUNIO	
10.1	C14/1136/20/LL estyniad balcony llawr cyntaf i gefn yr eiddo 55 Hen Gei Llechi Y Felinheli LL56 4PD.- DIM GWRTHWYNEBIAD	
10.2	C14/1112/20/LL estyniad cefn Llysfor, 2 Moel y Don Terrace, Glan y Môr Y Felinheli LL56 4RQ- DIM GWRTHWYNEBIAD	
10.3	C14/1115/20/CC gwneud gwaith i goed sydd wedi eu gwarchod o dan orchymyn gwarchod coed Coed Dinas Y Felinheli LL56 4RX- DIM GWRTHWYNEBIAD	
10.4	C14/1099/20/LL estyniad unllawr i gefn yr eiddo gyda newidiadau i falconi presennol uwchben 25 Hen Gei Llechi Y Felinheli LL56 4PA- DIM GWRTHWYNEBIAD	
10.5	C14/1105/20/CR Creu fent yn wyneb y cloc presennol ynghyd a gwaith cynnal a chadw Gof Golofn Stryd Bangor Y Felinheli.- DIM GWRTHWYNEBIAD	
11.0	ADRODDIAD IS BWYLLGOR Y FYNWENT	
	Dim i'w adrodd	
12.0	ADRODDIAD IS-BWYLLGOR MAES PARCIO, LON LAS A SAFLE MORIAH	
	Dim i'w adrodd	
13.0	ADRODDIAD LLWYBRAU CYHOEDDUS, CYSGODFANNAU A MEINCIAU	
13.1	Gwaith llwybrau ar y ffordd osgoi heb ei gwblhau ond mae'r gwaith wedi ei raglennu i'w wneud yr wythnos hon.	CLERC
13.2	Roedd y Cynghorydd George Smith wedi cyfarfod ac Alan Bowers. Mae rhan o lwybr yr Hen Gei Llechi ar hyn o bryd ym meddiant Watkyn Jones sydd eisiau trosglwyddo perchnogaeth i Gwmni'r Hen Gei Llechi. Roedd y Cwmni angen gwybodaeth ynglŷn ag yswiriant, cynnal y tir ac yn y blaen. Y Clerc	

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

	am anfon at Adran Llwybrau Cyngor Gwynedd i gael cyngor.	CLERC
14.0	ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR	
	Copi wedi ei anfon gyda'r agenda.	
15.0	CYNLLUN LLIFOGYDD CYMUNEDOL	
15.1	Cynghorydd Daniel Williams wedi cael cyfarfod a Swyddog yr Adran Ymgynghori Cyngor Gwynedd. Cafwyd adroddiad gan y Cynghorydd am gyfarfod a bydd yn ymgynghori a'r Swyddog Peirianeg Sifil gyda'r cynlluniau ac yna yn hysbysu'r Cyngor Cymuned o'r datblygiadau. Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Daniel Williams am y wybodaeth	
	Daeth y cyfarfod i ben am oddeutu 09:45 yn yr hwyr.	
Llofnod:		Dyddiad: